# Pwyllgor Archwilio Comisiwn y Cynulliad
# Assembly Commission Audit Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Dyddiad:** 7 Tachwedd 2013
**Amser:** 11.00 – 13.00
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B, Tŷ Hywel, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2013

**Yn bresennol:**

Aelodau
Richard Calvert (Cynghorwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio)
Keith Baldwin (Cynghorwr Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio)
Eric Gregory (Cynghorwr Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor Archwilio)
Hugh Widdis (Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Archwilio)

Swyddogion
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc, a'r Swyddog Cyfrifyddu
Dave Tosh, Cyfarwyddwr TGCh
Steven O'Donoghue, Pennaeth Adnoddau'r Cynulliad a Chyfarwyddwr Cyllid
Kathryn Hughes, Rheolwr Risg a Chlerc y Pwyllgor Archwilio
Nicola Callow, Pennaeth Cyllid
Virginia Hawkins, Pennaeth Llywodraethu
Vicky Davies, TIAA
Hedley Walls, KPMG
Helen Holt, Swyddfa Archwilio Cymru
Sarah Crosbie, Ysgrifenyddiaeth

### 1.0 Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

1.1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys Hugh Widdis, aelod newydd y Pwyllgor Archwilio. Croesawodd y Cadeirydd Virginia Hawkins hefyd, sef y Pennaeth Llywodraethu newydd, a Hedley Walls o KPMG a Vicky Davies o TIAA.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Angela Burns, Gareth Watts (Pennaeth Archwilio Mewnol) a Richard Harries a Mark Jones o Swyddfa Archwilio Cymru.

1.3 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 2.0 Cofnodion a materion yn codi

**Eitem 1** - Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Gorffennaf 2013 a materion yn codi

2.1 Roedd cofnodion y cyfarfod ym mis Gorffennaf wedi'u derbyn y tu allan i'r pwyllgor.

2.2 Ers y cyfarfod ym mis Mehefin 2013, roedd mwy o wybodaeth am drefniadau chwythu'r chwiban wedi'u rhoi ar wefan y Cynulliad, gan nodi manylion cyswllt amrywiol ar gyfer codi pryderon, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost unigol (mae paragraff 3.7 isod yn cyfeirio at hyn hefyd).

2.3 O ran y cam gweithredu nad yw wedi'i roi ar waith i adrodd yn ôl ar bolisi cyfrifyddu asedau'r Cynulliad, byddai papur i'w nodi'n cael ei gyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

2.4 Yn y cyfarfod ym mis Ebrill, roedd y Pwyllgor wedi gofyn am ailystyried gweithdrefnau fetio at ddibenion diogelwch yng nghyswllt diogelwch gwybodaeth. Roedd cynigion o ran trefniadau fetio at ddibenion diogelwch yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Rheoli a byddai'r Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf maes o law.

2.5 Nid oedd unrhyw faterion eraill yn codi o'r cofnodion.

## 3.0 Archwilio Mewnol

**Eitem 2 – Adroddiad y Pennaeth Archwilio Mewnol**

- ACAC (20) Papur 1a - Adroddiad cynnydd ar archwilio mewnol

3.1 Yn absenoldeb y Pennaeth Archwilio Mewnol, rhoddodd Steve O'Donoghue y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor, gan nodi bod pob archwiliad ar y trywydd iawn ac nad oedd unrhyw bryderon o ran yr amserlen.

3.2 Holodd y Pwyllgor am rai meysydd lle nad oedd dyddiadau archwiliadau wedi'u nodi. Eglurodd Steve y rheswm am hynny, sef am nad oedd y gwaith dan sylw wedi symud ymlaen mewn rhai meysydd. Ychwanegodd fod y dyddiadau ar gyfer gwaith archwilio a drefnwyd yn cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau y gellid gweithredu'r cynllun llawn ac y byddai cynllun drafft ar gyfer 2014-15 yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2014.

3.3 Nododd y Cadeirydd fod momentwm da wedi'i gynnal yn gyffredinol o ran gweithredu archwiliadau a chyflwyno adroddiadau arnynt, yn enwedig o gofio'r newid mewn personnél.

**Eitem 3 - Safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus**

- ACAC (20) Papur 1b – Cydymffurfio â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus a'r Siarter Archwilio Mewnol ddrafft

3.4 Nododd Steve, yn dilyn cyflwyno'r safonau newydd ym mis Ebrill 2013, fod Gareth Watts wedi mynd ar y cwrs CIPFA cysylltiedig ar oblygiadau hyn ac wedi trefnu i gwrdd ag Archwilwyr Mewnol o'r seneddau datganoledig eraill er mwyn rhannu'r arfer gorau ym mis Rhagfyr.

3.5 Croesawodd y Pwyllgor y syniad o ymgynghori â'r seneddau datganoledig a chymeradwyodd y Siarter yn amodol ar rai gwelliannau drafftio.

3.6 Awgrymodd y Pwyllgor efallai y byddai angen adolygiad o sgiliau Archwilwyr Mewnol o ran rheoli newid.

3.7 Nododd y Pwyllgor hefyd, am ei fod yn annibynnol ar y strwythur rheoli, fod yr Archwilydd Mewnol yn aml yn cael negeseuon e-bost yn chwythu'r chwiban, ac awgrymodd fod angen ystyried hynny.

**Eitem 4 - Yr adroddiadau archwilio mewnol diweddaraf**

- Adroddiad ar gynnydd y prosiect Dyfodol TGCh – diweddariad ar lafar

3.8 Rhoddodd Hedley Walls, o KPMG, drosolwg o ganfyddiadau'r adolygiad diweddar o brosesau rheoli risg y prosiect Dyfodol TGCh. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn yn dilyn adroddiad KPMG, a ddosbarthwyd i'r Pwyllgor ym mis Medi, a oedd yn mynd i'r afael â threfniadau llywodraethu a rheoli'r prosiect. Dywedodd Hedley fod statws 'gwyrdd' i'r prosiect, a nododd fod arferion da ar waith yn gyffredinol i reoli'r prosiect yn effeithiol ac nad oedd unrhyw risgiau sylweddol i rwystro'r prosiect rhag cael ei weithredu.

3.9 Nododd Dave Tosh fod y broses adolygu wedi bod yn werthfawr er mwyn cael safbwynt allanol ar y gwaith sy'n mynd rhagddo. Ychwanegodd y byddai adolygiad arall, yn canolbwyntio ar barodrwydd busnes, yn cael ei gynnal yn ystod cam allweddol nesaf y prosiect ym mis Ionawr/Chwefror 2014. Roedd y cynllun yn cynnwys trefniadau wrth gefn i alluogi Atos i drosglwyddo gwybodaeth erbyn

mis Ebrill, mewn da bryd i adael y contract erbyn y dyddiad a nodwyd ym mis Gorffennaf.

3.10 Canmolodd y Pwyllgor Dave a'i dîm am eu diwydrwydd dyladwy wrth gynllunio a chyfarwyddo'r prosiect. Nodwyd ei bod yn gadarnhaol iawn cael trefniadau craffu allanol, ac y byddai'n helpu i sicrhau bod gwasanaethau newydd yn cael eu rhoi ar waith yn llwyddiannus ac yn brydlon.

3.11 Nodwyd risgiau cynhenid y prosiect, yn enwedig yng nghyswllt yr heriau o ran y newid yn y berthynas ag Atos. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y gwaith o gynnal perthnasau cadarnhaol â rheolwyr cyfrifon Atos a'r ffaith bod staff medrus iawn wedi'u recriwtio yn helpu i reoli'r sefyllfa.

- ACAC (20) Papur 1c – Adroddiad arfarnu perfformiad yr adran Adnoddau Dynol

3.12 Cyflwynodd Steve y papur, gan nodi y byddai'r Bwrdd Rheoli'n ystyried y canfyddiadau'n fanwl ym mis Chwefror yn ogystal â safbwyntiau a nodwyd yn yr arolwg staff a chyfweliadau a gynhaliwyd yn ystod asesiad Buddsoddwyr mewn Pobl. Byddai'r camau gweithredu uniongyrchol yn cynnwys annog Penaethiaid Gwasanaethau i edrych ar ansawdd adolygiadau eu meysydd gwasanaeth perthnasol.

3.13 Nododd y Pwyllgor fod diffyg cysondeb, yn ôl y golwg, wrth asesu perfformiad mewn rhannau gwahanol o'r sefydliad, ac roedd rhai meysydd gwasanaeth yn fwy effeithiol nag eraill wrth gymryd rhan yn y broses adolygu. O ystyried bod gan y sefydliad wobr Aur Buddsoddwyr mewn Pobl, disgwyliwyd safbwynt mwy cadarnhaol. Fodd bynnag, cydnabu'r Pwyllgor fod adolygiadau o leiaf yn digwydd, ond byddai ansawdd yr adolygiadau hynny yn allweddol i lwyddiant cyffredinol y broses adolygu perfformiad. **Gofynnodd y Pwyllgor am ddiweddariad yng nghyfarfod y gwanwyn.**

- ACAC (20) Papur 1d – Adolygiad o system rheoli busnes y Cynulliad (ABMS)

3.14 Nododd Steve nad oedd system ABMS yn cael ei defnyddio i'w llawn botensial eto. Nododd Dave fod aelod o staff â gwybodaeth dechnegol a phrofiad hyfforddi ar secondiad dros dro er mwyn ymchwilio i'r system, mewn ymateb i'r adolygiad hwn, er mwyn rhoi hyfforddiant i staff ac asesu'r ffordd orau ymlaen.

3.15 Croesawodd y Pwyllgor yr adolygiad a nododd, er bod y system yn cael ei defnyddio'n effeithiol mewn rhai mannau, nid oedd rhai aelodau o staff wedi ymgysylltu'n llawn â hi. Efallai y byddai rhagor o hyfforddiant a chymorth wedi hwyluso'r broses o ran galluogi staff i ymchwilio i lawn botensial y system a'u hannog i'w defnyddio. Felly, byddai'n bwysig cynnwys pob defnyddiwr yn y gwaith o gynllunio newidiadau yn y dyfodol er mwyn helpu i sicrhau eu bod yn mabwysiadu'r newidiadau hynny.

3.16 Awgrymodd y Pwyllgor y dylid ystyried oes debygol y system ac arfer safbwynt mwy hirdymor o'r gwelliannau mwyaf buddiol.

3.17 Ymatebodd Dave, gan nodi bod asesiad ehangach o'r prosesau sydd ynghlwm wrth fusnes y Cynulliad yn mynd rhagddo, sy'n cynnwys ymgynghori â phob rhan o'r Cynulliad. Byddai unrhyw newidiadau i'r ffordd y caiff system ABMS ei defnyddio yn rhan o'r broses ymgynghori honno.

- ACAC (20) Papur 1e – Adroddiad ar y Cynllun Dirprwyo

3.18 Dywedodd Nicola Callow fod swyddogion ar y trywydd iawn i gyflawni'r argymhellion a bod y broses archwilio wedi bod yn ddefnyddiol wrth nodi meysydd ar gyfer gwella. Ers cael yr adroddiad, gwnaed gwelliannau i atgyfnerthu'r hyfforddiant a roddir i staff, yn enwedig o ran rheoli prosiectau yn ariannol.

3.19 Nododd y Pwyllgor fod diwydrwydd dyledus da yng nghyswllt dirprwyo, a bod cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud.

- ACAC (20) Papur 1f – Adroddiad ar y Cynllun Ymadael Gwirfoddol

3.20 Nododd y Pwyllgor fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg da o'r ddau gynllun a roddwyd ar waith. Teimlwyd bod y gwersi a ddysgwyd wedi'u hadlewyrchu'n dda a nodwyd y byddai'r rhain yn rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer unrhyw gynlluniau yn y dyfodol. Dywedodd y Pwyllgor y dylai swyddogion arfer diwydrwydd dyledus yng nghyswllt y rhesymau ar gyfer unrhyw gynlluniau yn y dyfodol a pharhau i fod yn ymwybodol o ganfyddiadau'r cyhoedd.

3.21 Nododd Claire ei bod yn anhebygol y câi cynllun arall ei roi ar waith cyn 2017 ac y byddai cyngor annibynnol yn cael ei geisio ar gyfer unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

- ACAC (20) Papur 1g - Prosiect system yr adran Adnoddau Dynol a'r Gyflogres - y wybodaeth ddiweddaraf ac adolygiad

3.22 Nododd Steve fod yr adolygiad wedi'i gynnal ym mis Mehefin pan roedd y prosiect mewn sefyllfa gymharol ansicr. Nododd fod llawer o'r materion a godwyd yn yr adroddiad wedi cael sylw ar adeg yr adolygiad ond nad oeddent, o reidrwydd, wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn yr adroddiad. Ers ysgrifennu'r adroddiad, gwnaed cynnydd sylweddol a rhoddwyd yr elfen o'r system sy'n ymwneud â'r gyflogres ar waith ar 1 Tachwedd.

3.23 Nododd Steve fod mwy o amser yn cael ei dreulio yn cynllunio ar gyfer camau nesaf y prosiect ac y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn y cam cyntaf, yn enwedig o ran adnoddau, yn cael eu hystyried. Byddai ef hefyd yn ymchwilio i'r ffordd y rhoddwyd prosiectau tebyg ar waith mewn mannau eraill.

3.24 Er bod y Pwyllgor yn cydnabod gwaith caled y rhai a gymerodd ran, teimlwyd y byddai'r gwaith o weithredu'r prosiect wedi bod yn llai o her pe bai'r materion a nodwyd yn yr adroddiad archwilio wedi'u rhagweld yn llawn.

3.25 Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad, gan nodi pwynt cyffredinol ynglŷn â'r angen i fabwysiadu diwylliant o ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl prosiectau blaenorol.

- ACAC (20) Papur 1h – Adroddiad dilynol (ar archwiliadau a gwblhawyd eisoes)

3.26 Nododd y Pwyllgor y gwaith cadarnhaol a wnaed yng nghyswllt rheoli contractau a diogelwch data a nododd y byddai adolygiad o'r broses o reoli cynnwys gwefannau yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod nesaf. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am grynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn holl argymhellion yr archwiliad yn y cyfarfod nesaf.

## 4.0 <u>Archwilio Allanol</u>

### Eitem 5 – Llythyr rheoli Swyddfa Archwilio Cymru

- ACAC (20) Papur 2a – Llythyr rheoli 2012-13

4.1 Nododd Helen Holt i'r canfyddiadau gael eu derbyn heb nodi unrhyw bryderon mawr. Cafwyd cyfarfod gyda'r swyddogion ar ôl yr archwiliad er mwyn asesu meysydd i'w gwella ar gyfer yr archwiliad nesaf. Roedd hyn yn cynnwys trefnu i wneud gwaith yn gynharach yn

y flwyddyn er mwyn osgoi adegau prysur iawn a symleiddio dogfennau ategol i wneud y broses yn fwy effeithlon.

4.2 Croesawodd y Pwyllgor ganfyddiadau'r llythyr rheoli, gan nodi'r hyn a ddywedodd Helen sef mai dim ond mân newidiadau yr oedd eu hangen i broses a oedd eisoes yn effeithiol iawn. Nododd y Pwyllgor y gwelliannau parhaus a welwyd gyda phob llythyr rheoli.

## 5.0 Dull llywodraethu Comisiwn y Cynulliad

### Eitem 6 – Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb

- ACAC (20) Papur 3a - Y wybodaeth ddiweddaraf am y Gyllideb
- ACAC (20) Papur 3b - Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2014-15

5.1 Cyflwynodd Nicola Callow y wybodaeth ddiweddaraf am y gyllideb, gan nodi bod y Pwyllgor Cyllid wedi craffu ar y gyllideb ddrafft ar 3 Hydref. Gwnaed pum argymhelliad a rhoddwyd ymateb i'r rhain yn dilyn hynny. Roedd y darlun cyffredinol yn gadarnhaol, gyda'r Cynulliad yn cyrraedd targedau ariannol allweddol.

5.2 Cydnabu'r Pwyllgor mai ei rôl oedd rhoi sicrwydd i Claire a'r Comisiwn fod trefniadau rheoli ariannol a rheoli risg effeithiol ar waith, yn hytrach na gwneud sylwadau ar gynnwys cynnigion y gyllideb. Nododd Nicola ei bod yn cyfarfod Angela Burns AC yn rheolaidd er mwyn rhoi gwell syniad iddi o'r broses a chynigodd wneud yr un peth ar gyfer aelodau eraill y Pwyllgor Archwilio.

5.3 Canmolodd y Pwyllgor pa mor ddarllenadwy yr oedd yr adroddiad ar y gyllideb ddrafft ac awgrymodd y dylai'r adroddiad gyfeirio'n benodol at y dangosyddion perfformiad allweddol er mwyn rhoi mwy o sylw i lwyddiannau'r Cynulliad. Teimlwyd nad oedd digon o sylw wedi'i roi i'r manteision a gellid gwella'r adroddiad er mwyn dathlu gwaith y Cynulliad ymhellach.

5.4 Câi linc i'r adroddiadau ar y dangosyddion perfformiad allweddol ei ddosbarthu er gwybodaeth.

### Eitem 7 - Adroddiad ar reoli risg a'r newidiadau sy'n codi

- ACAC (20) Papur 3c - Adroddiad ar risgiau corfforaethol (+ atodiad)

5.5 Nododd y Pwyllgor y gwaith cadarnhaol o ran lleihau risg yng nghyswllt diogelwch gwybodaeth a oedd yn golygu y gellid bellach rheoli'r risg honno ar lefel y gwasanaeth. Nododd hefyd y rheolaethau

pellach a oedd wedi'u hychwanegu at y risg i gapasiti corfforaethol a'r gwaith o ystyried yr effaith bosibl ar y canfyddiad o benderfyniadau'r Bwrdd Taliadau ar ôl i'r Cadeirydd ymddiswyddo.

**Eitem 8 - Archwiliad beirniadol o un risg**

- ACAC (20) Papur 3d – Archwiliad o'r risg i gapasiti corfforaethol

5.6 Cyflwynodd Steve y papur, gan nodi, er bod capasiti corfforaethol yn broblem yr oedd Claire a'r tîm rheoli wrthi'n ymdrin â hi, roedd yn parhau i fod yn risg barhaus gan na fyddai llawer o'r camau lliniaru a nodwyd yn sicrhau canlyniadau uniongyrchol. Nodwyd hefyd fod symud staff i gyfleoedd newydd fel rhan o'r polisi secondiadau wedi cael effaith ganlyniadol ar gapasiti mewn timau ym mhob rhan o'r Cynulliad.

5.7 Pwysleisiodd y Pwyllgor pa mor bwysig ydoedd i'r Bwrdd Rheoli barhau i fod yn bendant ynghylch gweithredu'r blaenoriaethau corfforaethol a chynllunio a rheoli adnoddau'n effeithiol.

5.8 Nododd y Pwyllgor yr angen i ddatblygu gweithlu â sgiliau trosglwyddadwy i alluogi staff i ymgymryd ag amrywiaeth ehangach o gyfrifoldebau. Gwnaed cymhariaethau ag adrannau eraill o'r gwasanaeth sifil a'r sector cyhoeddus, gyda staff yn rhoi o'u hamser i ymgymryd â gweithgareddau corfforaethol ehangach, a bod yn hyblyg ac yn barod i deithio er mwyn datblygu'n bersonol ochr yn ochr ag anghenion y busnes.

5.9 Nododd Claire gyngor y Pwyllgor ynghylch yr angen i ddatblygu cynllun cyfannol ar gyfer rheoli capasiti.

5.10 Ychwanegodd y Pwyllgor y byddai cysylltu'r broses rheoli perfformiad ac adolygu datblygiad â'r gwaith o gynllunio ar gyfer capasiti corfforaethol yn cynnig sianelau clir er mwyn i staff nodi cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau. Byddai hefyd yn helpu i sicrhau bod gan staff y sgiliau cywir i lywio'r sefydliad drwy newidiadau mawr yn y dyfodol.

## 6.0 <u>Eitemau eraill</u>

**Eitem 9 - Ymadawiadau**

- ACAC (20) Papur 4a - Adroddiad ar ymadawiadau

6.1 Nodwyd tri achos o ymadael â'r gweithdrefnau caffael arferol.

**Eitem 10 – Y flaenraglen waith**

- ACAC (20) Papur 4b - Y flaenraglen waith

6.2 Nododd y Pwyllgor fod mapio sicrwydd wedi'i ychwanegu at y rhaglen a bod yr eitem ar y strategaeth archwilio allanol ar gyfer 2013-14 wedi'i symud i gyfarfod mis Chwefror.

**Eitem 11 – Canllawiau diwygiedig Trysorlys Ei Mawrhydi**

- ACAC (20) Papur 4c – Llawlyfr diwygiedig Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer Pwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg

6.3 Nododd Kathryn Hughes fod y Pwyllgor eisoes yn gwneud llawer o'r newidiadau a gynigwyd yn y Llawlyfr diwygiedig. Soniodd am nifer o benderfyniadau yr oedd angen eu gwneud ynghylch newidiadau a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor. **Cytunodd y Pwyllgor ar y canlynol:**

- Dylid newid enw'r Pwyllgor i Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Cynulliad; a
- Dylai'r cylch gorchwyl restru aelodau'r Pwyllgor.

**7.0 <u>Sesiwn breifat</u>**

7.1 Am nad oedd cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru yn bresennol, câi'r sesiwn breifat ar archwilio allanol ei haildrefnu.

**8.0 <u>Diwedd y cyfarfod</u>**

8.1 Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben drwy ddiolch i Sarah Crosbie, dirprwy glerc y Pwyllgor, a ffarwelio â hi gan mai dyma ei chyfarfod olaf gyda'r Pwyllgor cyn symud i swydd newydd.

8.2 Gan mai dyma gyfarfod olaf Richard Calvert fel Cadeirydd ac aelod o'r Pwyllgor, rhoddodd Claire ddiolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r gwaith o lywodraethu'r Cynulliad ac am eu perthynas waith gadarnhaol yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Dymunodd y Pwyllgor a'r swyddogion pob llwyddiant i Richard yn y dyfodol.